Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Aberffraw
# Neuadd y Pentref
# Aberffaw
# Ynys Môn
# LL63 5EZ

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2013**

**gan**

**Wil Williams**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 03/07/2013**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Aberffraw yn lleoliad meithrin cofrestredig sy'n rhan o ddarpariaeth y Mudiad Meithrin a Phartneriaeth Plant a Phobl Ifanc Ynys Môn. Mae'n cyfarfod yn y boreau am bedwar sesiwn yr wythnos.

Pentref bach gwledig yw Aberffraw sydd ym marn y lleoliad gyda nifer o deuluoedd gydag incwm isel. Caiff y sesiynau eu cynnal mewn ystafell gynnull fawr yn neuadd y pentref ac mae cegin, toiledau, storfa ac ardal chwarae y tu allan hefyd ar gael at ddefnydd y lleoliad. Caiff plant o bob gallu a chefndir eu derbyn i'r lleoliad. Yn ystod yr arolygiad, nid oedd yr un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol nac o dras ethnig yn mynychu'r lleoliad.

Darperir sesiynau o ddwy awr a hanner ar gyfer plant dwy i bedair oed, er bod y nifer o sesiynau a fynychir gan unigolion yn amrywio yn ôl dymuniad rheini. Ers cau ysgol gynradd y pentref, ychydig iawn o blant sy'n mynychu'r lleoliad. Caiff un plentyn ei ariannu gan yr awdurdod lleol.

Cymraeg yw'r iaith a siaredir gartref gan holl blant y lleoliad. Nid oes yr un plentyn yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Prif gyfrwng addysgu a dysgu'r lleoliad yw Cymraeg.

Mae swydd yr arweinydd yn cael ei rhannu gan ddwy ymarferydd. Maent wedi'u cymhwyso'n briodol ar gyfer addysgu'r blynyddoedd cynnar.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaeth Cymdeithasol Cymru yn Chwefror 2012 a chan Estyn ym Mai 2007.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad cyfredol yn dda oherwydd bod:

- profiadau dysgu diddorol ac ysgogol yn annog plant i wneud cynnydd da ar draws pob maes dysgu'r Cyfnod Sylfaen;
- cynllunio da ar gyfer datblygu medrau cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu;
- yr addysgu o ansawdd da;
- bron pob plentyn yn dod i'r lleoliad yn hapus ac yn siriol;
- darpariaeth dda ar gyfer hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol plant; a'r
- lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff pob plentyn hawl cyfartal i'r holl feysydd dysgu.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'n dda oherwydd bod:

- arweinwyr yn rhoi synnwyr clir o gyfeiriad i ddatblygiad y lleoliad;
- arweinwyr yn gwybod yn dda am gryfderau'r lleoliad a'r meysydd i'w datblygu;
- swyddogion y pwyllgor rheoli yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau'n ddiwyd;
- y lleoliad yn agored i syniadau newydd ac yn barod i roi cynnig ar wahanol ffyrdd o weithio;
- ystod dda o bartneriaethau yn cyfrannu'n gryf at gyflawniadau a lles plant; a'r
- lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Argymhellion

R1. Cynnwys y Pwyllgor Rheoli yn y prosesau hunan-arfarnu.

R2. Cofnodi arsylwadau ymarferwyr ar ddatblygiad plant yn fwy rheolaidd.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | |
|---|---|

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Trwy gyd-gynllunio effeithiol, llwydda ymarferwyr i ddarparu amrywiaeth eang o brofiadau dysgu diddorol ac ysgogol sy'n ennyn diddordeb yr holl blant a'u hannog i wneud cynnydd da ar draws pob maes dysgu'r Cyfnod Sylfaen. Mae llawer o'r profiadau hyn yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol plant ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr iddynt fentro ac arbrofi â phrofiadau newydd yn hyderus ac i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol. Trwy weithio dan do ac yn yr ardal leol, megis y traeth cyfagos, caiff plant gyfleoedd cyson i gynyddu eu dealltwriaeth o'r byd maent yn byw ynddo ac o ryfeddodau byd natur. Maent hefyd yn datblygu llawer o fedrau corfforol a chreadigol allweddol.

Mae'r lleoliad yn cynllunio'n dda ar gyfer datblygu medrau cyfathrebu plant. Wrth weithio ar dasg unigol neu wrth gymryd rhan mewn sesiwn dorfol, anogir plant i wrando'n ofalus ar oedolion ac ar blant eraill ac i rannu eu syniadau a'u profiadau gyda gweddill y grŵp. Mae'r gweithgareddau chwarae rôl a ddarperir, megis yn ardal 'ar lan y môr,' yn gyfle da i gyflwyno geirfa newydd, er enghraifft 'gwymon' a 'broc môr,' ac i ddatblygu gallu'r plant i addasu eu hiaith ar gyfer gwahanol bwrpasau. Mae cyfleoedd dyddiol i wrando ac ymateb i'w hoff storïau ac i ymdrin â llyfrau'n annibynnol, naill ai i ddilyn stori neu i gywain gwybodaeth o luniau. Mae cyfleoedd buddiol yn mron pob ardal ddysgu, y tu mewn a'r tu allan, i blant wneud marciau i bwrpas.

Mae'r lleoliad yn creu cyfleoedd da, yn aml mewn sefyllfaoedd anffurfiol, i blant ddatblygu a defnyddio eu medrau rhifedd. Yn ystod sesiynau dyddiol ar y carped, maent yn trafod trefn dyddiau'r wythnos, cyfrif gwrthrychau cyfarwydd ac yn defnyddio eu bysedd i ddangos eu hoedran. Mae'r adnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a brynodd y lleoliad yn ddiweddar, yn sicrhau bod cyfleoedd da i blant ddefnyddio gwahanol feddalwedd ac i ddatblygu eu medrau mewn gwahanol sefyllfaoedd.

Mae natur benagored llawer o'r tasgau yn y ddarpariaeth barhaus yn annog plant i wneud defnydd pwrpasol o'u medrau meddwl ar gyfer datrys problemau ymarferol.

Rhoddir lle amlwg yn y lleoliad i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth plant o draddodiadau a diwylliant Cymru a hefyd i gynyddu eu hymwybyddiaeth o'u rôl mewn cymdeithas ac yn y byd.

Trwy ailgylchu ac ailddefnyddio gwastraff, mae'r lleoliad yn darparu'n addas ar gyfer codi ymwybyddiaeth plant o bwysigrwydd cynaliadwyedd.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd uchel y mwyafrif o'r addysgu yn gryfder amlwg yn y lleoliad ac yn cyfrannu'n gryf tuag at ddatblygu medrau dysgu plant. Mae gan ymarferwyr wybodaeth gyfoes o'r Cyfnod Sylfaen ac maent yn disgwyl llawer gan bob plentyn. Mae trefniadau cadarn ar gyfer sicrhau bod y gweithgareddau a ddarperir yn addas ar gyfer plant o bob oed a gallu. Gwna'r lleoliad ddefnydd deallus o'r amgylchedd y tu mewn, y tu allan a'r ardal leol, megis y traeth cyfagos, i gynllunio gweithgareddau cyffrous a phenagored sy'n ysgogi ymglymiad plant i'r dasg dan sylw. Llwydda'r lleoliad i greu cydbwysedd rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan blant a gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan ymarferydd.

Mae ymarferwyr ar y cyfan yn fodelau iaith da ac yn bachu ar bob cyfle i gyflwyno geirfa ac ymadroddion Cymraeg newydd i'r plant. Mae ymyrraeth amserol staff ynghyd â holi medrus, yn ymestyn dealltwriaeth a medrau plant yn effeithiol iawn ac yn eu herio i ddysgu mwy trostynt eu hunain. Mae'r lleoliad yn rhoi pwyslais mawr ar ddysgu trwy chwarae ac ar fwynhad. Bydd staff yn ymateb i unrhyw ymddygiad amhriodol mewn ffordd sensitif a chadarn.

Mae ymarferwyr yn adnabod plant yn dda ac yn cadw cofnodion addas o'u cynnydd yn chwe maes dysgu'r Cyfnod Sylfaen trwy gydol eu cyfnod yn y lleoliad. Defnyddia'r ymarferwyr nifer priodol o ddulliau ar gyfer asesu a mesur cynnydd plant, gan gynnwys arsylwadau dydd-i-ddydd. Er bod yr arsylwadau hyn gan mwyaf, o ansawdd da, ni chânt eu cofnodi'n ddigon rheolaidd iddynt fod yn ddefnyddiol ar gyfer cynllunio gweithgareddau i'r dyfodol. Caiff rhieni eu cynnwys yn y prosesau asesu a thrwy dderbyn 'Llyfr Trysor' eu plentyn, cânt wybodaeth hynod fuddiol am ei ddatblygiad ar draws pob maes dysgu.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Daw bron pob plentyn i'r lleoliad yn hapus ac yn siriol. Mae gan y lleoliad bolisïau a threfniadau cadarn ar gyfer hyrwyddo byw'n iach a lles plant. Trwy gynnig byrbrydau iach, hybu hylendid a darparu cyfleoedd dyddiol i blant rannu eu profiadau ac ymwneud ag ymarfer corfforol, mae'r lleoliad yn helpu plant yn dda i gyflawni eu lles emosiynol a chorfforol. Mae trefniadau da iawn ar gyfer sicrhau bod pob plentyn ac oedolyn yn rhydd o unrhyw aflonyddwch corfforol neu emosiynol. Anogir pob plentyn i gymryd rhan lawn ym mywyd y lleoliad ac i ymgymryd â dyletswyddau, megis 'helpwr heddiw,' twtio ar ddiwedd sesiwn neu rannu adnoddau.

Darperir yn dda ar gyfer hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol plant. Mae pwyslais cryf ar ddatblygu chwilfrydedd a synnwyr o ryfeddod plant am y byd y maent yn byw ynddo, ac yn arbennig am fyd natur. Yn ogystal, caiff gwerthoedd megis gonestrwydd a pharch eu hybu'n gryf drwy holl waith y lleoliad. Mae plant yn cael eu hannog i ddangos blaengaredd, i reoli eu hymddygiad a bod yn fodlon i rannu adnoddau gyda phlant eraill.

Pan fo angen cymorth neu gefnogaeth arbenigol ar blentyn neu riant, gŵyr yr arweinydd yn dda gyda phwy i gysylltu. Dengys profiad blaenorol y lleoliad o gydweithio gyda chynrychiolwyr yr awdurdod lleol ac ymwelwyr iechyd bod trefniadau priodol ar gyfer cefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r trefniadau sefydlu da ynghyd â gofal ymarferwyr, yn sicrhau bod plant sy'n newydd yn y lleoliad yn ymgynefino'n ddidrafferth

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff pob plentyn hawl cyfartal i'r holl feysydd dysgu a'r gweithgareddau a ddarperir ar eu cyfer. Mae pwyslais cryf ar ddatblygu agweddau goddefgar ac ar sicrhau bod plant ac aelodau staff yn rhydd o unrhyw aflonyddwch. Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr sy'n meddu ar wybodaeth ac arbenigedd digonol i addysgu pob agwedd ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Llwydda ymarferwyr i greu amgylchedd symbylus lle gall pob plentyn fanteisio'n llawn ar brofiadau dysgu a datblygu gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol.

Mae cyflenwad da o adnoddau o ansawdd da ym mhob maes dysgu gan gynnwys TGCh. Maent yn cael eu gweddu'n ofalus i ddatblygiad ac anghenion dysgu pob unigolyn. Gwna'r ymarferwyr ddefnydd dychmygus o'r ardal leol, ynghyd â'r ardal y tu allan a sefydliwyd yn ddiweddar, i gyfoethogi profiadau dysgu plant. Defnyddia'r lleoliad adnoddau yn y gymuned leol yn bwrpasol iawn i gefnogi dysgu yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r adeilad a'r ystafelloedd o ansawdd da ac yn cael eu defnyddio'n helaeth.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r ddwy ymarferydd, sydd hefyd yn cyd-arwain y lleoliad, yn gweithio'n effeithiol fel tîm er mwyn rhoi synnwyr clir o gyfeiriad i ddatblygiad y lleoliad. Trwy fanteisio ar gryfderau ei gilydd, mae'r arweinwyr wedi gallu sicrhau bod y lleoliad yn cael ei weinyddu'n effeithiol a bod y rhan fwyaf o'r addysgu o safon uchel. Crëir ethos lle mae plant a staff ychwanegol yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Gan mwyaf, mae disgwyliadau uchel o ran safonau a chaiff pob aelod staff eu hannog i ymdrechu orau y gallant. Mae'r arweinwyr yn cyd-rannu gwerthoedd cytûn am ddysgu, ymddygiad a pherthynas ac yn gweithio tuag at amcanion cyffredin.

Mae gan y lleoliad nodau a pholisïau clir sy'n canolbwyntio ar anghenion plant ac yn cael eu deall a'u gweithredu'n gydwybodol. Sefydlwyd cysylltiadau effeithiol gyda rhieni a phartneriaid eraill ac mae'r person cofrestredig wedi datblygu system addas ar gyfer gwerthuso ymarferwyr. Mae hyn yn arwain at dargedau cytûn, yn arbennig o ran pennu anghenion datblygiad proffesiynol pellach.

Mae swyddogion y pwyllgor rheoli yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn ddiwyd. Maent yn gwahodd y rhieni i bob cyfarfod a, thrwy gylchlythyrau rheolaidd, yn sicrhau bod ganddynt wybodaeth gyfoes am waith y lleoliad. Mae aelodau'r pwyllgor yn sicrhau bod unrhyw gwynion yn cael eu datrys ar unwaith a bod y lleoliad yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol.

Mae parodrwydd yr arweinwyr i ymgymryd â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, megis y Cyfnod Sylfaen a Chynllun Iach  Ysgolion Ynys Môn, wedi cyfoethogi profiadau dysgu plant ac wedi arwain at welliannau mewn dysgu a lles plant.

**Gwella ansawdd:  Da**

Trwy hunan arfarnu parhaus, mae'r arweinwyr yn gwybod yn dda am gryfderau'r lleoliad a'r meysydd i'w datblygu.  Mae'r adroddiad hunan arfarnu o ansawdd priodol ac yn dadansoddi sefyllfa gyfredol y lleoliad yn effeithiol.  Mae'n defnyddio'r wybodaeth yn bwrpasol mewn cynllun datblygu ar gyfer pennu blaenoriaethau ar gyfer gwelliant.  Mae strwythur clir ar gyfer rhoi'r gwelliannau ar waith ynghyd â threfniadau addas sydd wedi'u sefydlu ar gyfer arfarnu effaith y datblygiadau ar safonau a darpariaeth.

Mae'r arweinwyr yn gwerthfawrogi barn rhieni ac yn darparu cyfleoedd rheoliad iddynt fynegi barn am y lleoliad.  Mae'r lleoliad yn ymateb yn brydlon ac yn gadarnhaol i unrhyw sylwadau a wneir gan rieni unigol.

Caiff ymarferwyr gefnogaeth gref gan raglen datblygiad proffesiynol parhaus a ddarperir yn bennaf gan yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin.  Mae hyn wedi'u galluogi i gaffael gwybodaeth a medrau newydd ac i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus.  Mae'r sesiynau hyfforddi hefyd yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ymarferwyr rannu eu harfer gydag ymarferwyr o leoliadau eraill.

Mae'r lleoliad yn datblygu'n dda fel cymuned ddysgu gref.  Mae'r ymarferwyr yn agored i syniadau newydd ac maent yn barod i roi cynnig ar wahanol ffyrdd o weithio a rhannu gwybodaeth a syniadau ymhlith ei gilydd.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae ystod dda o weithgareddau partneriaeth yn cyfrannu'n gryf at gyflawniadau a lles plant.  Caiff rhieni eu hysbysu'n rheolaidd am bob agwedd ar waith y lleoliad a chymer ymarferwyr gamau gweithredol i'w cynnwys yn yr holl weithgareddau y mae'r lleoliad yn eu trefnu.  Mae'r pecyn gwybodaeth a ddosberthir i rieni newydd yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am bolisïau a gweithdrefnau'r lleoliad er nad yw'n awgrymu ffyrdd y gall rhieni helpu eu plant.  Gan nad oes ysgol gynradd bellach yn y pentref a bod y plant yn trosglwyddo i nifer o ysgolion gwahanol y tu hwnt i Aberffraw, nid oes cyswllt gweithredol gyda'r un ysgol benodol.  Fodd bynnag, mae trefniadau priodol ar gyfer anfon cofnodion asesu'r plant i'r ysgolion perthnasol.

Mae'r cydweithio agos rhwng y lleoliad ac athrawes gynhaliol yr awdurdod lleol, ynghyd â Mudiad Ysgolion Meithrin, yn cyfrannu'n gadarnhaol iawn at wella ansawdd y ddarpariaeth a safonau.  Mae'r ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol iawn, yn rhannu gwybodaeth am blant ac yn gwybod gyda phwy i gysylltu a phryd os bydd angen cymorth ychwanegol ar blant.

Mae'r cysylltiadau da a ffurfiwyd gyda phwyllgor y neuadd gymuned a phobl yn y gymuned, megis rhieni a'r eglwys, wedi arwain at fanteision sylweddol i blant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae’r lleoliad wedi cael ei staffio’n briodol i addysgu pob agwedd o’r cwricwlwm ac mae aelodau staff yn cael eu defnyddio’n effeithiol i wneud y defnydd gorau o’u hamser, eu harbenigedd a’u profiad. Mae adnoddau’n cael eu rheoli’n dda.

Mae gan yr arweinwyr a’r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth drwyadl o’u cyllideb ac maent yn blaenoriaethu eu gwariant yn unol ag anghenion datblygu’r lleoliad. Mae dawn yr arweinwyr i ddenu nawdd o wahanol ffynonellau, megis y Lotri, wedi cryfhau sefyllfa gyllidol y lleoliad yn sylweddol. Mae hyn wedi eu galluogi i sicrhau bod adnoddau o ansawdd uchel ar gael i’r plant, yn arbennig offer TGCh, a bod amrywiaeth dda o adnoddau wedi’i pwrcasu ar gyfer yr ardal chwarae y tu allan. Mae’r arweinwyr a’r pwyllgor rheoli yn arfarnu penderfyniadau ariannol yn ofalus i wneud yn siwr eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar safonau, cynnydd a lles plant.

Mae ansawdd y ddarpariaeth yn dda ac mae arweinwyr yn rhoi synnwyr clir o gyfeiriad i waith y lleoliad. Mae’r lleoliad felly yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron i rieni gan mai nifer bychan yn unig o ymatebion a gafwyd.

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Mae'r plant yn dweud eu bod yn hapus yn y lleoliad a'u bod yn hyderus i droi at unrhyw oedolyn i ofyn am gyngor neu arweiniad.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Wil Williams | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o’r adroddiad**

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |